

## **CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS**

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523  
e-bost: [clerc@betwsdallanelian.org.uk](mailto:clerc@betwsdallanelian.org.uk)

### **COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YM MHAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 20fed TACHWEDD, 2023.**

#### **1. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod yn enwedig y Cynghorydd John D ROBERTS ar ol ei driniaeth a'i adferiad hir.

#### **2. YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Gwenda DAVIES; Glenna HUMPHREY; Bryn JONES; D Gwyn JONES; John D ROBERTS; Hefin WILLIAMS; Goronwy R. WILLIAMS;

#### **3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Irwedd GRIFFITHS; Gethin OWEN; Cynghorydd Sir Ifor G LLOYD.

#### **4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgofffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Nid oedd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un a oedd yn bresennol.

#### **5. MUNUDAU**

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 16eg o Hydref 2023. (Cynnig y Cynghorydd Gwyn D JONES ac eilwyd gan y Cynghorydd Goronwy R WILLIAMS.

#### **6. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw fater yn codi ond fe gafwyd sgwrs fer am y gorlifo ger Llais Afon a'r unedau diwydiannol. Mae'r man o dan y bont angen ei glirio pan fydd y tywydd wedi gwella a rhediad y dwr yn llai. Cawn edrych ar hyn yn y gwanwyn.

#### **7. CYLLID**

Cafwyd Adroddiadau Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Hydref 2023. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

|                      |                           |
|----------------------|---------------------------|
| (1) Cyfrif Cymunedol | = £7,133.22 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian i Mewn         | = £0.00                   |

|                         |  |
|-------------------------|--|
| Arian Allan             | = £5.00 (Costau Banc - DR)                       |
|                         | = £405.39 (Cyflog y Clerc – SO)                  |
|                         | = £101.40 (Taliad i’r HMRC – SO)                 |
|                         | = £55.80 (AstyoHugbers – Gwasanaethau Cyflog-SO) |
|                         | = £40.74 (BT-Tal Misol WiFi-arferol-TAL)         |
| Heb ei Cyflwyno         | = Dim  |
| <u>Cyfrif Cymunedol</u> | <u>= £6,524.89 (Cludwyd Ymlaen)</u>              |

|                      |                                     |
|----------------------|-------------------------------------|
| (2) Cyfrif Busnes    | = £5,614.13 (Dwyn Ymlaen)           |
| Arian Allan          | = £0.00                             |
| Arian i Mewn         | = £0.00                             |
| <u>Cyfrif Busnes</u> | <u>= £5,614.13 (Cludwyd Ymlaen)</u> |
| <u>Cyfanswm</u>      | <u>= £12,139.02</u>                 |

Cytunodd pawb a’r adroddiadau yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae’n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb Mae’r anfonebau a restrir isod angen ei talu:

£325.00 – Archwilio Cymru – Infois 2020-2021 – Infois heb ei dderbyn am y cyfnod hwn

£450.00 – Archwiliad Cymru – Infois 2021-2022 – Infois heb ei dderbyn am y cyfnod hwn

£248.00 – Archwiliad Cymru – Infois 2022-2023 – Infois newydd ei dderbyn am y cyfnod hwn

£165.00 – Cymdeithas Chwaraeon ac Adloniant Betws yn Rhos – Rhent y Pafiliwn

£336.29 – Huws Gray – Bagiau a Swnd tuag at amddiffyn gorlifo

£50.00 – RBL – Torchau Sul y Cofio

£40.00 – Swyddfa’r Comisynydd Gwybodaeth Taliad Blynyddol GDPR

Cytunodd pawb i’r Clerc dalu yr anfonebau yma.

## 8. GOHEBIAETH

### i. Derbynydd

- Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda’r rhai perthnasol yn cael ei gyrru mlaen i’r Cyngorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc.

### ii. Anfonwyd

- Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
- Llythyrau ac ebyst i’r Cyngorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

## 9. GRANTIAU

### i. Ceisiadau i’r Cyngor

- Cais am grant tuag at gost Cinio Nadolig yr henoed ym Metws yn Rhos a thuag at bresantau Nadolig y plant.

### ii. Ceisiadau gan y Cyngor

- Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i’r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

## 10. CYNLLUNIO - <http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer>

- a. Cyfeirnod: 0/50531 Ymgeisydd: Gareth Williams  
Cynllun: Estyn y sied amaethyddol i ddarparu storfa slyri fel y nodir yn natganiad o anghenion y cleient.  
Safle: Bethgeth Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AG  
Mae'r cais yma yn nawr wedi ei gymeradwyo gyda amodau.
- b. Cyfeirnod: 0/51018 Ymgeisydd: Ms Delyth Wanklyn  
Cynllun: Codi adeilad amaethyddol i ddibenion lles anifeiliaid  
Safle: Cae rhif 5446 Abergele Road Betws Yn Rhos Abergele Conwy LL22 8AL  
Mae'r cais yma yn nawr wedi ei gymeradwyo gyda amodau.
- c. Cyfeirnod: 0/51025 Ymgeisydd: Springtime Lodges Ltd  
Cynllun: Newid tri chaban gwyliau presennol am rai newydd a chynnig dau gaban ychwanegol (cyfanswm o bum caban gwyliau), gan gynnwys tirlunio cysylltiedig a maes parcio  
Safle: Alpine Lodge Rhyd Y Foel Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EA  
Roedd pryderon oddeutu mynediad i'r safle hwn ynglun a gweledd ac hefyd safle parcio digonol. Llythyr iw anfon i'r Cyngor Sir i sicrhau fod yr itemau hyn yn cydfynd a'r rheolau. Mae'n nawr yn ymweld fod y safle yma yn rhan o ardal Cyngor Cymuned Llanddulas a Gele a mae gryn dipyn o sylwadau yn cael ei rhoi o'r ardal yna am y cais.  
Mae'r cais yma yn nawr wedi ei gymeradwyo gyda amodau.
- d. Cyfeirnod: 0/51140  
Cyfeiriad: Glan Gors Ffordd Galch Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 6BD  
Application Type: Llawn Development Type: NewDev  
Approval of condition nos 3 (Materials) & 4 (Photographic Survey) of planning approval 0/48997 (Renewal of planning approval 0/43196 (proposed replacement dwelling)0.  
Electoral Divisions: Betws Yn Rhos  
Community Councils: Cyngor Cymuned Betws yn Rhos Community Council  
Mae hwn wedi bod o'n Blaenau o'r blaen. Y Cyngor Sir yn dal i ystyried y cais.

## 11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Mae'r Archwilaid Blynnyddol am y flwyddyn yn gorffen 31ain o Fawrth 2023 bellach wedi ei chyflawni. Mae'r canlyniadau wedi cael ei ymddangos fel y gofynnir o dan Adran 29 o'r Ddeddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004 ar wefan y Cyngor ac ar y tri bwrdd gwybodaeth o gwmpas yr ardal am yr amser gofynnol. Maent yn nawr wedi ei cymeryd i lawr ond fe arhosir yr archwiliad ar wefan y Cyngor.

## 12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

- a. Dim materion i'w trafod y tro hwn.

## 13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

- a. Diffibrilwyr. – Bydd Cler y Cyngor yn nawr yn gwneud yn siwr fod yr offer o hyd yn barod i gael ei ddefnyddio. gyda golwg hefyd ar edrych i gael diffbrilwr newydd yn ardal Dawn.

- b. Gordyfiant ar lonydd gwyrdd a llwybrau lleol – hyd yn hyn cafwyd dim ymateb am adborth ar gyflwr y llwybrau na dim cynnigion am y Llwybyr Natur. Cafodd y Cyngor Cymuned wybodaeth bod fideo yn cael ei pharatoi i fedru adnabod y lonydd gwyrdd a'r llwybrau.
- ch. Yr Hwb - Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.
- c. Mae angen cynnal a chadw y gwllau blodau newydd wrth fynedfa y caeau chwarae yn Betws yn Rhos. Maent wedi ei symud erbyn hyn ond mae angen ei hail sefydlu mewn rhan arall o'r cae chwarae ac ei hail hadu gyda blodau gwyllt.
- ad. Bydd angen trafod ymhellach ynglun a'r toiledau di-ddefnydd yn Betws yn Rhos. Mae'r Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r adeiladau gwag a didefnydd sydd ar ei rhestr. Mae angen trafod mwy am rhywle arall i adeiladu toiledau cyhoeddus yn y pentref. Y Clerc I edrych I mewn I brisiau adeilad pre-fab.
- d. Cwynion am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos. Rydym yn dal i ddisgwyl ymateb gan y Cyngor Sir. Y Clerc I ail ysgrifennu i Adran AFFCH gan fod rhan o'r wal ar y llwybyr yn nawr wedi dymchwel hefyd.
- e. Cwynion am barcio amhriodol ym mhentref Llanelian. Y Cynghorwyr i gyfarfod yn y man i drafod y broblem. Gofyn I'r Cymgor Sir o soes modd rhoi llinell wen ar draws dreif y ty cyfagos a rhoi potyn mawr blodau wedi ei wneud o concrete neu bren i'w roi ar y pafin.
- f. Mae angen cael trwydded erbyn hyn I osod goleuadau y Nadolig ar y Goeden (Adran 178, Trwyddedu Proses a Gofyniadau Goleuadau Nadoligaedd). Y Clerc i ymgeisio a chwblhgwau y drwydded.

#### 14. ADRODDIAD BLYNYDDOL

Mae Adroddiad Blynyddol y Cyngor wedi ei baratoi ac fe' dengys ar wefan y Cyngor.

#### 15. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Cafodd y gyllideb flynyddol ei thrafod a'i chytuno. Bydd hwn yn sail praesept y flwyddyn i ddod. Caiff y yllideb ei pharatoi a'i chynhyrchu erbyn y cyfarfod nesaf ynghyd a cais y praesept.

#### 16. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny. Mae gwybodaeth yn dod allan yn am y ffermydd gwynt uchod o bryd iw gilydd a bydd y Cyngor yn cadw cysylltiad a hwy ac ar unrhyw beth fyddai yn ymyrd a'r ardal ac hefyd unrhyw fanteision fydd ar gael i'r ardal yn sgil y projectau hyn. Mae ymchwiliad yn awr ar fynd i benderfyny ar lwybr y ceblau o'r fferm wynt alltraeth i'r is-orsaf ar Barc Busnes Llanelwy.

Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth:

[Overview](#)

[About us](#) [About the Project](#) [What the Project will look like](#) [Processes and Next Steps](#)

[Our work so far](#) [Interactions with other marine users](#)

[Information Hub](#) [Visualisations of the windfarm](#) [Interactive map.](#)

Cawn dynu yr item yma i ffwrdd o'r Agenda nes bydd unrhyw beth o ddiddordeb yn dod i fyny.

#### 17. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen. Mae gwaioth wedi dechrau ar yr adeilad newydd. Bydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael ei cynnal ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos o hyn ymlaen nes bod yr adeilad newydd yn Llanellian wedi ei orffen.

**18. Y GADLAS**

Angen rhoi erthygl yn y Gadlas i hybu Yr Hwb yn Betws yn Rhos..

**18. UNRHYW FATER ARALL**

- a. Llythyr i'w yrru i Mr Alan Bates i'w gymeradwyo am y gwaith mae wedi ei gyflawni o gylch enllib y Swyddfa Bost.
  - b. Llythyr i'w yrru i Dave ac Eddie, Ty'n Wal yn Dilyn ei gweithrediad yn achub gyrrwr modur lectric aeth yn sownd mewn gorlif.
  - c. Y Clerc I edrych I fyny os cafodd Henoed Llanellian yn Rho sei grant o £300 yn y flwyddyn 2021.
- Ch. Bu i un o frodorion Betws yn Rhos, sef y Doctor Owen WILLIAMS ei goroni fel ennillydd Eisteddfod yr Urdd 2023. Penderfynwyd gael plac wedi ei gwneud a'i roi ar wal y Ganolfan Chwaraeon neu y Neuadd Bentref yn Betws yn Rhos.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 8.50yh.

CADEIRYDD: ..... John EVANS

CLERK: ..... Tom Jones      DYDDIAD: 8fed Ionawr 2024